# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 11 Rhagfyr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ21068) yn ôl.*

### Allgau Cymdeithasol yng Nghanol De Cymru

**C11 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fesurau'r Cynulliad i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol yng Nghanol De Cymru? (OAQ21084)

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Un o egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r ystod eang o bolisïau a gyhoeddwyd yn yr ail adroddiad blynyddol ar gynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru yn tystio i'n hymrwymiad i wella cynhwysiant cymdeithasol ym mhob cymuned ledled Cymru, gan gynnwys cymunedau Canol De Cymru.

### Cyflwr Tai

**C12 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian a roddir i awdurdodau lleol i wella cyflwr tai? (OAQ21046)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais yn y gyllideb ddrafft ym mis Hydref y bydd y gwariant ar dai yn cynyddu £66 miliwn dros y tair blynedd nesaf (heb gynnwys y cymhorthdal i'r cyfrif refeniw tai, sy'n wariant a reolir yn flynyddol). Mae hyn yn cynnwys cymorth i ariannu cyfalaf yr awdurdodau lleol ac amrywiaeth o gynlluniau eraill, a fydd yn effeithio'n sylweddol ar y broses o wella cyflwr tai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

### Rhaglen Wardeiniaid Cymdogaeth a Strydoedd

**C13 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhaglen wardeiniaid cymdogaeth a strydoedd? (OAQ21073)

**Edwina Hart:** Gall wardeiniaid cymdogaeth wneud cyfraniad pwysig at greu cymunedau mwy diogel a gallant dawelu meddwl pobl. Maent yn rhan o'r dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â diogelwch cymunedol, sydd yn awr yn cynnwys swyddogion sy'n rhoi cymorth i'r gymuned a sefydliadau diogelwch cymunedol achrededig. Yn ogystal, maent yn ran o gydweithio arloesol gyda'r Gwasanaeth Prawf ar brosiectau sy'n hybu tawelwch meddwl y cyhoedd drwy ddefnyddio'r bobl sydd ar Orchymyn cosb gymunedol i wella'r amgylchedd adeiledig drwy gael gwared ar ysbwriel a graffiti.

### Tai Fforddiadwy yng Nghymru

**C14 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw'r Llywodraeth glymblaid wedi llwyddo yn ei nod i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yng Nghymru? (OAQ21065)

**Edwina Hart:** Y mae'r gyllideb o dros £56 miliwn ar gyfer grantiau tai cymdeithasol yn cynhyrchu mwy na 1,000 o dai bob blwyddyn a fydd naill ai'n cael eu gosod ar rent neu ar gyfer y cynllun prynu cartref. Ystyriaf fod hyn yn gyfraniad pwysig i'r broses o gynyddu nifer y tai fforddiadwy yng Nghymru.

### Cynghorau Cymuned

**C15 David Melding:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chynrychiolwyr y cynghorau cymuned ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldebau? (OAQ21085)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned ar sawl achlysur, drwy gydol y flwyddyn, i drafod ystod eang o bynciau. Yr oedd y pynciau hynny'n cynnwys astudiaeth ymchwil Llywodraeth Cynulliad Cymru o rôl, swyddogaeth a photensial y cynghorau tref a chymuned, a sefydlu un gymdeithas newydd ar gyfer cynghorau cymuned Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

**C6 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog sôn am y trafodaethau y mae wedi'u cael gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynghylch lleihau'r perygl o lifogydd y gaeaf hwn? (OAQ21095)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Trafodaf ystod eang o bynciau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheolaidd ac yr wyf wedi darparu arian ychwanegol i'w galluogi i gyflwyno cynlluniau yn gynt. Yn ogystal, mae fy swyddogion yn cysylltu â'r asiantaeth yn rheolaidd i drafod y cynllun. Ymgynghorais yn gynharach eleni ynglŷn â sut y gellir gwella'r trefniadau ar gyfer atal llifogydd, a byddaf yn trafod yr adolygiad llifogydd gyda chadeirydd yr asiantaeth yn ystod ein cyfarfod nesaf.

### Lleihau Sŵn sy'n deillio o Draffyrdd a Ffyrdd

**C7 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i leihau'r sŵn a'r problemau eraill sy'n deillio o draffyrdd a phrif ffyrdd eraill yng Nghymru? (OAQ21093)

**Sue Essex:** Y mae'r ymgynghorwyr a apwyntiwyd i gynnal yr astudiaeth sŵn wedi cwblhau eu hasesiad. Derbyniasom adroddiad o'u casgliadau ac mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Gobeithiaf y cyhoeddir yr adroddiad o fewn ychydig wythnosau.

### Rhestr Hadau Genedlaethol

**C8 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynigion i roi Chardon LL ar y rhestr hadau genedlaethol? (OAQ21134) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor.***

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Gorffennodd y gwrandawiad cyhoeddus ar gynigion Gweinidogion y DU i ychwanegu Chardon LL at restr genedlaethol y DU ar 13 Mehefin 2002. Mae Alun Alesbury, y person a apwyntiwyd gan Weinidogion i gynnal y gwrandawiad, yn cynhyrchu ei grynodeb ffeithiol o'r dystiolaeth ar hyn o bryd. Gwneir unrhyw benderfyniad i restru Chardon LL ar y cyd â Gweinidogion y DU ac fe ystyrir cyngor y cyrff cynghori statudol, y Pwyllgor Cynghori ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd a'r Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd a Phrosesau Newydd, yn ogystal â'r wybodaeth yng nghrynodeb Alesbury.

### Prosiectau Amgylcheddol Arloesol

**C9 Christine Chapman:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i annog prosiectau amgylcheddol arloesol sy'n gwella cymunedau lleol? (OAQ21105)

**Sue Essex:** Mae cynllun Amgylchedd Cymru yn cefnogi dros 80 prosiect o'r fath ar draws Cymru ar hyn o bryd. Yn ogystal, caiff y gronfa datblygu cynaliadwy ei hymestyn am dair blynedd ychwanegol i gefnogi prosiectau yn y gymuned yn ardaloedd tirwedd gwarchodedig Cymru. Cyhoeddodd Mrs Hart hefyd yn ddiweddar raglen newydd o adnoddau a gweithgareddau yn y gymuned a fydd yn darparu cymorth perthnasol ychwanegol ledled Cymru.

**Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion**

**C10 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllun datblygu unedol Ceredigion? (OAQ21120)

**Sue Essex:** Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gyfrifoldeb statudol fel awdurdod cynllunio lleol i ddarparu cynllun datblygu unedol ar gyfer ei ardal. Bydd y cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau darpariaeth ar gyfer anghenion datblygu a chadwraeth. Bydd camau'r cynllun statudol yn galluogi unrhyw unigolyn neu sefydliad i gael eu cynrychioladau wedi eu hystyried gan awdurdod cynllunio lleol. Cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion ei gynllun datblygu unedol dros dro yn Medi eleni, pan gynhaliwyd ymgynghoriad statudol. Dyma yw'r cam lle y mae gan bobl gyfle i roi eu safbwyntiau i'r cyngor. Rhaid i'r awdurdod ystyried pob gwrthwynebiad a gyflwynir, a chânt eu hystyried yn yr ymchwiliad cynllunio annibynnol, y mae disgwyl iddo gael ei gynnal yn 2004.

**Atal Llifogydd yng Ngorllewin Clwyd**

**C11 David Ian Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar atal llifogydd yng Ngorllewin Clwyd? (OAQ21102)

**Sue Essex:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau gweithredu, yr awdurdodau lleol perthnasol a Phwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol Dyfrdwy a Chlwyd yw penderfynu pa gynlluniau atal llifogydd i'w cyflwyno. Yr wyf wedi cynyddu y cyfraddau grant i awdurdodau lleol i 85 y cant i'w hannog i gyflwyno cynlluniau. Mae cymorth ariannol ychwanegol hefyd ar gael ar gyfer cynlluniau a hybir gan bwyllgorau amddiffyn rhag llifogydd lleol.

**Fferm Wynt ar y Môr ger Porthcawl a Phort Talbot**

**C12 Alun Cairns:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y materion cynllunio, y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, yn ymwneud â'r cynnig i greu fferm wynt ar y môr ger Porthcawl a Phort Talbot? (OAQ21103)

**Sue Essex:** Derbyniodd y Cynulliad oddeutu 50 o lythyrau, yn bennaf gan aelodau lleol o'r cyhoedd. Codwyd ystod o faterion yn yr ohebiaeth ac mae'r rhan fwyaf yn lythyrau sy'n gwrthwynebu'r cynnig. Ni chyflwynwyd cais ar gyfer y fferm wynt arfaethedig hyd yn hyn.

**Tir Halogedig yng Nghymru**

**C13 Peter Black:** Pa waith sydd ar y gweill i gofnodi tir halogedig yng Nghymru? (OAQ21124)

**Sue Essex:** Mae canllaw statudol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Nhachwedd 2001, o dan bwerau Rhan II (a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu strategaethau i archwilio tir halogedig. Disgwyliwn i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynhyrchu eu strategaethau erbyn Chwefror 2003. Bydd y broses o weithredu'r strategaethau hyn yn darparu gwybodaeth fanwl ar faint o dir halogedig sydd yng Nghymru.

**Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd Cymru**

**C14 Gwenda Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gyda Phwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd Cymru? (OAQ21110)

**Sue Essex:** Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â Phwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd Cymru a byddaf yn derbyn brîff ganddo ar faterion yn ymwneud â datblygu gwasanaethau rheilffyrdd. Mae Clive Williams, yr ysgrifennydd, yn aelod o'r Fforwm Trafnidiaeth a rhoddais dystiolaeth i'w arolwg o wasanaethau prif linell y Great Western yn gynharach eleni. Croesawaf y rôl a chwaraeodd y pwyllgor wrth gynorthwyo'r Cynulliad gyda'n gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth rheilffyrdd yng Nghymru.

**Arolygon o Wrychoedd**

**C15 Mick Bates:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd, yn ychwanegol at y £25,000 a glustnodwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i dalu am arolygon o wrychoedd, yn unol ag ymrwymiad y DU i'r confensiwn byd-eang ar amrywiaeth biolegol? (OAQ21131)

**Sue Essex:** Yn ychwanegol at y £25,000 a roddir gan DEFRA i ariannu arolygon o wrychoedd ar draws y DU, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae rhan lawn wrth helpu Llywodraeth y DU i gwrdd â'i hymrwymiadau o dan y confensiwn. Ar 28 Tachwedd, cyhoeddais fod rhestr o rywogaethau a chynefinoedd sydd fwyaf pwysig ar gyfer gwarchod amrywiaeth biolegol wedi ei gyhoeddi.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn darparu cymorth ariannol ar gyfer paratoi a gweithredu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol a chefnogi gwaith Grŵp Bioamrywiaeth Cymru.